Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 13. Rhif 1.] IONAWR 1913. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Ymson y Myfyriwr.
Y Parch. Robert Collyer, D.D., D.Litt.
Y Ferch Ieuanc a'i Phump Brawd.
Gwroniaid y Mannau Cudd.
Dros y Don. Sarnicol.
Adgofion am Ysgol Pontsian.
Mr. Evan Evans, Llanfihangel-ar-arth.
Dygwyddiadau Nodedig.—Parhad.
Llithiau Myfyriwr.
Oddiar y Twr.
Sut yr aeth y Byd i Ben.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

NOW READY and may be obtained of

J. D. LEWIS, "YR YMOFYNYDD" OFFICE, LLANDYSSUL.

—:o:—

"An Interpretation of Rudolph Eucken's Philosophy."

By the Rev. W. TUDOR JONES, PH.D.

Price 5s. nett.

This Book deals with Prof. Eucken's philosophy in a far more extensive manner than has hitherto been attempted in England.

TALIADAU.

D.D., Gorseinon; G. J., Castell, Pencarreg; J.P., St. Clears; Miss J., Llandeilo; W. Ll., Felinfach; Mrs. J., Fronfelen; Miss J., Pontshan; E.J., Bank, Abergorlech; Miss L., Dowlais; J.G.J., Cwrtnewydd; J.D., Llundain; S.D., Coedpark; E. L., Bedlinog; J.D.D., Cwmgwrach; D.S., Bwlchyffin; D.J., Tydwgi; J. T., Castell-draenog; T.T., Rock Mill; D.D., Gwardafolog; R.P., Great Molleston; D.M.D., Aberdar; J.M., Blaengwynfi; Mrs. R., Ysguborfawr; H.H., Birmingham; J.L., Glancledlyn; Mrs. J., Blaenllan; J.I.D., Trecynon, Aberdar; Mrs. J., Llansamlet; R.D.D., Mardy; D.J.G., Ferndale; J.E., Aberdar; H.J., Nantymoel; D. J., Clydach Vale; R.Ll., Merthyr; J.D., Llanwnen; J.J., Aberaman; Mrs. T., Cribyn; Mrs. J., Llandyssul; D.D., Gwarcefel Arms; A.E.J., Aberystwyth.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi; pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. IONAWR, 1913. [CYF. XIII. RHIF 1.

AR EDYN FFYDD.

Y LLWYBR.

MAE'r llwybr megis llinyn aur
Yn uno ein haneddau ;
Ac nid oes preswyl yn y fro
Tu allan i'w dolennau.

A heibio drws y palas llawn
A'r bwthyn mawr ei helynt ;
Nid arno ef y mae y bai
Fod cymaint pellder rhyngddynt.

* * * * * * *

Mae'r nef yn llawn o ddwyfol hedd,
A'r byd yn llawn o helynt ;
Nid arno EF y mae y bai
Fod cymaint pellder rhyngddynt.—R. H. JONES.

GWEDDI.

O ARGLWYDD EIN DUW! dyro gymorth i ni ymostwng yn wylaidd o'th flaen, ac i alw arnat mewn gweddi. Nertha ni i sylweddoli Dy bresenoldeb gyda ni. Dyro brofiad melus o honot i ni. Galluoga ni i ddywedyd, fod Duw yn wir, yn y lle hwn, a bod y fangre hon mewn gwirionedd, yn dŷ i Dduw, ac yn borth i'r nefoedd. Ynot Ti yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod. Oddiar Dy law Di yr ydym yn derbyn pob trugaredd. Ti sydd yn ein cynal a'n cadw. Diolch i Ti am Dy amddiffyn mawr a chyson drosom, ac am ein harwain hyd yr awrhon. O! na allem Dy weled Di yn fwy eglur yn Dy ddaioni, a theimlo ein rhwymedigaethau i Ti. Dyro y fath olwg i ni arnat, yn Dy ragluniaeth dyner, ac yn enwedig yn Dy drugaredd a'th ras, a fyddo yn ein cymhell ninau, i gysegru ein hunain yn llwyr i'th wasanaeth. Meddiana Di ein calonau, fel y byddo i ni Dy gadw yn wastad yn ein meddwl. Hwylia Di ein cerddediad fel y cadwom Dy ddeddfau. A pham grwydrom oddiwrthyt dychwel Di ein henaid, ac arwain ni ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn Dy enw. Amen.

YMSON Y MYFRIWR.

PAN yn ieuanc iawn, bum am ryw gymaint o amser yn Eglwyswr, —ie, yn Eglwyswr bach mor selog ag yw yn bosibl i grwtyn o'r saith i'r deg oed fod. Yn ystod yr adeg hon, o braidd y cymerwn hamdden i fwyta'm bwyd, gan gymaint fy awydd i fod yn rhywle o gylch cynteddau'r Eglwys yr arferwn gyrchu iddi. Yr adeg hon, hefyd, y

Llyfr Gweddi Gyffredin

oedd y cwbl. Ni ystyriwn y Beibl o fawr gwerth; nid oedd ond gwastraff ar amser i'w ddarllen. Ond darllenwn y Llyfr Gweddi gydag awydd a blas, a dysgwn ar gof lawer o'i gynwys. Daethum fel hyn yn gyfarwydd iawn ag ef. Ac y mae'r cyfrwydd-der hwn yn aros hyd heddyw. Credaf fy mod yn gwybod mwy am gynwys y Llyfr Gweddi Gyffredin heddyw na llawer o Eglwyswyr. Nid oeddwn yn ei ddeall i gyd—yn wir, yr oedd rhan fawr o'i gynwys tu hwnt i'm gallu dirnadol anghwrteithiedig. Nid oedd hyn, fodd bynag, yn peri i mi lawer o flinder. Deall neu beidio, credwn fod yr oll o hono yn wirionedd diamheuol; a theimlad o dosturi oblegid ei anwybodaeth deimlwn at bob un a daflai ddiystyrwch arno neu a ynganai air o amheuaeth mewn perthynas iddo. Ond er hyn, perai rhai rhanau o hono gryn dipyn o aflonyddwch meddwl i mi—yn enwedig felly

Credo St. Athanasius.

Dyna'r gosodiad "Bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod," er enghraifft. Yr oedd hyn yn eithaf iawn yn ddiameu. Ni theimlwn un petrusder gyda golwg ar hyn. Ond ni fedrwn ddeall sut oedd y fath beth yn bosibl. Yna, sylwn ar adranau ereill, megis, "Y Tad sydd Dduw, y Mab sydd Dduw, a'r Yspryd Glân sydd Dduw. Ac eto nid ŷnt dri Duwiau: ond un Duw." Yr oedd hyn yn hollol tuhwnt i'm hamgyffred: tri Duw ac eto dim ond un Duw. Yr oedd yn y gredo lawer iawn o osodiadau gwrthun ereill o gyffelyb natur i'r uchod. Ond yr hyn a'm blinai fwyaf oedd yr haeriad fod y sawl a wrthodent gredu'r Ffydd Gatholig

Yn Dragwyddol Golledig.

Ceisiwn ddirnad arteithiau'r colledigion; a braidd nad oeddwn barod i felldithio'r Duw a fedrai ddyfeisio'r fath dynged ofnadwy i'r fath nifer o'i blant. Un Sul anturiais roi gofyniad i'm hathraw mewn perthynas i'r anhawsderau hyn. Ni feddyliais ddrwg wrth ofyn am eglurhad. Yr oeddwn yn rhy ieuanc eto i roi lloches i feddyliau ac amcanion drwg. Ond cafodd y gofyniad effaith ryfeddol ar yr athraw,

gan iddo agos fy nanfon i ——— wel, nis gwaeth i ba le. Wrth feddwl am hyn yn ngoleuni'm profiad dilynol fel athraw, nid wyf yn synu fod fy ngofyniad wedi cael y fath effaith arno. Nid oes dim yn cyffroi athraw gymaint a gwaith un o'i ddysgyblion yn gofyn eglurhad ar fater nad oes ganddo un eglurhad i roi neu nad yw yn alluog i roi eglurhad arno. Y mae meddyliau mwyaf miniog y canrifoedd wedi methu taflu goleuni ar ddyrys-osodiadau'r Gredo; ac ni ellir disgwyl i ddynion syml ac anllythyrenol i lwyddo lle maent hwy wedi methu. Wel, yn fuan ar ol hyn, mi ês, nid i'r lle poenus yr ewyllysiai'r athraw i mi fyned, ond i gyfeiriad arall. Y mae yn ddigon posibl, er hyny, ei fod ef yn barnu nad oedd fawr gwahaniaeth rhwng y ddau le. Y mae mwy o flynyddau wedi myned heibio er yr adeg hono nag a garaf ddwyn i gof. Yn ystod y cyfnod maith hwn, syrthiodd y Gredo bron yn llwyr i dir abergofiant. Ac nid tebyg y dychwelai oddi yno byth mwy oni bai i mi weled yn y newyddiadur y dydd o'r blaen fod awdurdodau

Eglwys Gadeiriol Henfordd

wedi penderfynu rhoi heibio defnyddio'r Gredo yn eu gwasanaeth crefyddol. Gwyddwn er's blynyddau fod cryn dipyn o anfoddlonrwydd yn ffynu yn yr Eglwys mewn perthynas i'r priodoldeb o'i defnyddio. Nid am nad yw gosodiadau athrawiaethol y Gredo mwyach yn rhoi mynegiad cywir i syniadau presenol yr Eglwyswyr y gwrthwynebid hi, ond am fod yr ymadroddion coll-farnol geir ynddi yn peri gloes i deimladau cwrteithiedig a dyngarol llawer o ddynion a benywod goreu yr Eglwys. Ond ni feddyliais fod neb o honynt yn barod i gymeryd cam mor anturiaethus a hwn. Oherwydd

Cam Anturiaethus Ydyw,

nad yw yn bosibl rhagweled ei ganlyniadau. Y mae Esgob Henffordd yn adnabyddus fel un o olygiadau a chydymdeimladau rhyddfrydig. A theifl y weithred y cyfeiriwyd ati oleuni ffafriol iawn ar ei ddylanwad ar y rhai a wasanaethant yr Eglwys tu fewn i'r Esgobaeth. Yn awr nid oes genyf un gwrthwynebiad i Eglwyswyr i gredu'r Gredo hon. Os yw ei chynwys yn anealladwy ac anerbyniol i mi, gallaf ei gwrthod. Ond os yw'r Gredo, ar y tu arall, yn dderbyniol gan rywun arall, teg ydyw iddo gael ei ddymuniad. Dylai pob dyn gael perffaith ryddid i gredu'r hyn a ewyllysia,—bydded ddoethineb neu ffolineb. Nid credu neu beidio credu yw'r pwnc mewn dadl; ond yn hytrach

Y Rhyfyg Anweddaidd

a arferir gan un dyn i goll-farnu dyn arall a wahaniaetha oddiwrtho. Dyna wneir gan bob Eglwyswr pan yn adrodd Credo Sant Athanasius. "Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig: o flaen dim rhaid iddo gynal y Ffydd Gatholig. Yr hon Ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog: diameu y collir ef yn dragywydd." Yna, ar ol desgrifio'r

Ffydd Gatholig yn nghorph y Gredo, ail adroddir yr un ddedfryd: "Hon yw y Ffydd Gatholig: yr hon pwy bynag a'r nis creto yn ffyddlon, ni all efe fod yn gadwedig." A'r dynged a erys y cyfryw a'i gwrthyd hi, yn ngeiriau'r adran flaenorol, yw'r "tân tragwyddol." Nis gwn a oes ambell i Eglwyswr yn darllen yr "ymsonau" hyn o'm heiddo ai nid oes. Os oes, ac os y cânt amynedd i ddarllen mor bell a hyn, a ydwyf yn ceisio gormod ganddynt i droi i'r Llyfr Gweddi, a darllen y Gredo yn ofalus ac ystyriol a diragfarn, yn ngoleuni hyny o reswm ac o ddynoliaeth a berthyn iddynt? Os gwnant hyn, yna, ar ol gwneud hyn, atebent y gofyniad hwn—

A Ydyw Hyn yn Iawn?

A ydyw yn iawn fod un dosbarth o ddynion yn ymgymeryd â'r gorchwyl o ddedfrydu i golledigaeth dragwyddol bawb na chyd-olygant a hwy mewn materion duwinyddol? Fy ateb i'r gofyniad hwn yw—nad yw yn iawn. Pa iawnder—ie, pa ddyngarwch—all fod yn y fath syniad a hwn—fod (o leiaf) naw o bob deg o'r hil ddynol yn dragwyddol golledig am wrthod credu'r hyn y mae elfenau goreu eu natur yn gwrthdystio yn ei erbyn—ie, yn achos y mwyafrif mawr o ddynion a benywod, am na chredasant yr hyn na chlywsant erioed son am dano? Unwaith eto—nid yw hyn yn iawn; nid yw yn ddyngarol.

Myfyriwr.

Y PARCH. ROBERT COLLYER, D.D., D. Litt.

FEL llawer o weinidogion eraill gwasanaethodd Robert Collyer fel caplan yn amser y rhyfel cartrefol yn yr Unol Dalaethau. Fel hyn y mae'n adrodd un o'i brofiadau: "Wedi hyny ymwelais â'r Camp, ac eisteddais yn mwthyn dyn claf, carcharor o'r De. Ebe fi, 'Ai gweinidog ydych?' Atebais, 'Ie.' 'Pa fath, Bedyddiwr?' 'Nage.' 'Methodyn?' 'Nage.' 'Presbyteriad?' 'Yr oeddwn am wel'd pa mor bell y gallai fyn'd, ac atebais 'Nage.' Tebyg mai dyna'r oll oedd wedi glywed am danynt, oblegid fe daflodd ei lygaid yn agored led y pen, ar ol gorphen ei res o ofyniadau, a dywedodd, 'Beth ynte?' Atebais, 'Undodwr.' 'Ah!' meddai 'ni chlywais am danynt hwy o'r blaen. Pa beth gredant hwy?' Atebais eu bod yn credu fod Duw yn Dad i ni, ei fod yn gofalu am danom i gyd, a'i fod yn cymeryd dyn am y peth yw yn hytrach nag am y peth y dywed ei fod, a'i fod ar ol ein marw yr un cymaint yn Dad i ni ag oedd o'r blaen. 'Wel' ebe'r dyn 'chlywais i erioed o hynyna o'r blaen, ond y mae yn iawn. Dewch eto i fy ngweled.' Aethum ar y trydydd diwrnod ar ol hyny, ond yr oedd y bwthyn yn wag. Yr oedd y dyn wedi myned at ei Dad."

Wedi ysgrifenu yr uchod, cawn i Dr. Collyer farw Tachwedd 30, 1912. Fe'i ganwyd Rhagfyr 8, 1827.

Y FERCH IEUANC A'I PHUMP BRAWD.

DAMEG.

DARLLENWN fod merch ieuanc yn yr hen amser gynt a chanddi bump brawd. Yr oedd un yn gerddor, un arall yn bainter, y trydydd yn farsiandwr, y pedwerydd yn gogydd (cook) a'r pumed yn saer.

Yr oedd y ferch ieuanc wedi cael rhodd o berl gwerthfawr tuag at ei hystafell (dowry), ac yr oedd pob un o'r brodyr yn awyddus i'w feddianu iddo ei hunain.

Gwnaeth y Cerddor gais am dano yn gyntaf. Aeth at ei chwaer a dywedodd: "Gwerthwch y perl i mi, ac fel tâl chwareuaf i chwi y gerddoriaeth aydderchocaf a glywodd eich clustiau erioed." Ebe hithau, "Pan dderfydd y gerddoriaeth ni fydd genyf fi ddim, a gwrthododd ei gais."

Yna daeth y Painter, ac meddai, "Mi baentiaf ddarlun ysplenydd i chwi os rhoddwch y perl i mi." "Ond fe all rhywun ladrata'r darlun. Na, ni werthaf y perl i chwi."

Yn nesaf daeth y Marsiandwr. "O fy chwaer" meddai yn ei ddull dengar, "gwerthwch y perl i mi ac mi a ddygaf i chwi yn fy llongau o'r gwledydd pell y fath berlysiau ac aroglau ag na welsoch erioed eu tebyg, ac mi roddaf i chwi rosynau a lilïau persawrus, lonaid gardd." Ond ei hateb eto oedd, "Na, fe beidia'r blodeu ryw ddydd roddi pleser, ac am y rhosynau a'r lilïau, darfod a diflanu wnant."

Yna daeth y Cogydd a dywedodd: "Rhoddwch y perl i mi, a minnau a barotoaf wledd foethus i chwi o bob danteithion." Ar ol y wledd" meddai hithau, "fe ddaw eisieu bwyd drachefn, ac fe fydd fy mherl wedi fy ngadael. Na nid wyf yn bwriadu gwerthu fy mherl i chwithau chwaith.

Ar ei ol ef daeth y Saer ac addawodd godi palas ardderchog iddi, yn yr hwn y gallai fyw fel brenhines—"Ond nid yw brenines yn byw heb ofalon. Nid wyf yn golygu gwerthu fy mherl am lonaid ty o ofalon."

O'r diwedd, pan wedi gwrthod cynygion yr oll o'r brodyr daeth Tywysog teyrnas fawr ati i geisio prynu'r perl. Ac meddai hi wrtho, "Pa beth a roddwch i mi am dano?" Ac meddai yntau, "Mi a roddaf fy hunan i chwi a'r oll a feddaf." Ac meddai hithau, "O'r goreu, mi a dderbyniaf eich rhodd, ac mi a fyddaf yn eiddo i chwi a chwithau a fyddwch yn eiddo i minau byth bythoedd," a hi a roddodd y perl iddo.

A therfyn y stori yw iddi fyw byth wedi'n yn rhydd oddiwrth bob gofalon. Nid oedd byth mewn eisieu o fwyd, ac yn nheyrnas y Tywysog mawr yr oedd ganddi beraroglau a blodeu a phob peth y gallai ei chalon ei ddymuno.

Yn awr, cofier, y mae anturiaeth y ferch ieuanc hon a'r perl yn stori wir; hyny yw, y mae yn stori sydd yn dal perthynas a phob un o honom, ac yn dal perthynas a'r hyn a ddichon ddigwydd i chwi ac i minau.

Y forwyn brydferth, yr enaid yw; a'r perl gwerthfawr, cariad yw; y pump brawd y pump synwyr ydynt—Y clyw, y golwg, yr arogl, yr archwaeth, a'r cyffyrddiad neu'r teimlad; neu mewn geiriau eraill; y clust, y llygaid, y ffroenau, y tafod, y croen. Ac y mae pob un o'r pump yn ceisio enill serch yr enaid iddo ei hunan. Y Tywysog, mae yn byw yn y lle nesaf i mewn; ei lais, fe'i clywir gan rai a galwant ef yn Gydwybod; ei lusern, fe'i gwelir gan rai, a galwant ef y Goleuni Mewnol, ac y mae rhai, nid llawer, wedi cael gafael yn y Deyrnas.—Jacob Bendetti.

GWRONIAID Y MANNAU CUDD.

(DARNAU O BRYDDEST.)

I.

Pa wlad sydd heb arwyr ynddi,
Arwyr a'u hanes yn wyrdd,
Arwyr a'r cofion am danynt yn lleng
Fel blodau Mai hyd y ffyrdd,—
Rhywrai a'r byd yn eu 'nabod
Rhywrai mewn encilfeydd,
Rhai yn wroniaid ar dyrau clod,
Ereill mewn unigfeydd;
Gwroniaid ar faes y rhyfel,
Gwroniaid yn swn y gad,
Rhai a'u gwroniaeth yn cael ei weld
Gan wreng a bonedd y wlad;
Rhai ar lwyfannau'r ddaear
A banllef y dyrfa yn bêr.
Ereill o'r golwg ar hyd eu hoes
Fel pell, anweledig ser?

Trof heno i fangre dinodedd,
A dagrau serch ar fy ngrudd,
A chanaf i'r blodau dyf yn sang
Gwroniaid y mannau cudd.

Mae blodau'n yr encil yn gwenu
Yn nhewlwyn dilewyrch y coed,
A'u dail dan y gwlith yn arogli'n bêr
Bob bore wrth ddyfod i'w hoed;

Treiddia'u perarogl hyfryd
Fel lledrith i giliau'r cwm,
Ar allor yr arogldarth per
Erys yn gwmwl trwm.
Wyr neb beth yw enwau'r blodau,
Wyr neb beth yw enwau eu dail,
Ond gwyr y teithwyr ar lwybrau blin
Werth eu haroglau di-ail.
Ni chanodd bardd i'w ceinderau,
Ni wisgodd bun un o rhain,
Cymrodyr yw brodyr yr encil llwm
I ysgall, mieri, a drain,
Blodau'r encilion di-sylw,
A gwlith y wawr ar eu grudd,
A gaf fi enwi'r gymanfa fwyn
Yn wroniaid y mannau cudd?

Aderyn yn canu'n hudolus
Yn nyfnder di-wawl y coed,
Lle na fu bardd yn breuddwydio'n bêr,
Lle na fu cerddor erioed;
Yng nghanol y goedwig ddi-oleu
'N gydymaith i engyl y nef,
Cana'r aderyn ei gerddi pur,
Heb neb yn ei ganmol ef;
Wyr neb beth yw enw'r aderyn,
Na lliw ei adenydd chwaith,
Ond tery ei gan ar y tannau cudd
Yn nyfnder y goedwig faith;
Cenir molawdau i'r eos,
Croesawir y gwcw i'n gwlad,
Ac enw'r ehedydd ar lawer min
Oeda yn enw mad, –
Adar di-enw'r encilion,
Cerddorion di-nod y cyhudd,
A gaf fi son am yr adar hyn
Fel gwroniaid y mannau cudd?

Lles uwchaf y bobl, yn yr oll o honynt, ddylai fod prif ystyriaeth pob llywodraeth.—Yr Anrhydeddus D. Lloyd George.

Y mae Cymro wedi ei lwyr lyncu gan faterolaeth yn *anomaly*—yn beth na ellir ei ddychmygu.—Y Parch. Rhondda Williams.

Fe all dyn weithio yn fwy deallns ac yn fwy effeithiol dros ei eglwys ei hunan, os bydd yn gwybod beth sy'n cael ei wneuthur y tu allan i'w chyffiniau.—Y Parch. R. Jenkins.

DROS Y DON.

(Parhad).

Dydd Iau. 11.15. Bore gogoneddus. Y môr yn dawel ac o liw glas hyfryd. Yn y pellder cyfyd mynyddau Yspaen eu penau beilch ar y dde ; y mae rhai o'r trumau uchaf yn disgleirio megis copr, yn debyg i fynyddau'r lleuad trwy yspienddrych. Ar y glanau hongia niwl ysgafn. Fry, yn y ffurfafen ac yn y pellder, wele dŵr o wyddau, neu hwyaid gwylltion yn hedfan, ac yn ffurfio llun sarff yn yr awyr.

Am 2.30 hwyliasom i mewn i harbwr Santander, a'r hin yn braf, er ei bod dipyn yn boeth wedi oerni'r nos ar y môr. Hafan naturiol ysplenydd ydyw, yn ffurfio cylch crwn, ag un adwy yn arwain i mewn iddi o'r Werydd : cylchynir ef gan fynyddau geirwon, uchel a diffrwyth, ac hyd y traeth cyfyd tai uchel newyddion, yn rhes uwch rhes, a gerddi a choedydd rhyngddynt yma a thraw. Newydd ei hail-godi mae'r tai ar ol ffrwydriad ofnadwy a gymerodd le yn yr harbwr yn 1893, pan y taniodd llwyth o dynameit, yn ganoedd o dunelli o bwysi, yn nghanol yr hafan, nes chwilfriwio'r holl adeiladau ar y lan, a lladd llawer iawn o drigolion y dref. Gan mai llwyth smwgl oedd y dynameit, mynai rhai weled llaw dial yn y trychineb.

Daeth crwtyn bychan i'r bwrdd, Yspaenwr, ond yn siarad Saesneg yn berffaith. Aethom allan i'r dref mewn cwch gynted ag y bwriwyd angor, a'r hogyn gyda ni i dori'r iaith. Ychydig o Saesneg siaredir yma, ac edrych y trigolion yn rhyw gymysgfa ddilewyrch. Tyf rhes o balmwydd ar y lan, gan roddi cysgod cysurus rhag poethder yr haul. Llusgir y *tramcars* gan fulod (nid asynod) ; a thynir y certi gan ychen, creaduriaid rhagorol. Aethum i dy Seisnig, John a minau a'r Capten, a chawsom bob o wydryn o win. Yr oedd gan wraig y ty dair neu bedair o ferched heirdd ; gwisgent yn y dull Yspeinig, ag edrychent yn amgen na brodorion y wlad.

Aethom allan i westy i gael ciniaw ; ac yn wir cawsom giniaw dda. Gosodaf y *menu* yn Saesneg, nid yw'r Gymraeg eto wedi disgyn i wasanaeth bwyta ac yfed :—

Olives. Bread and Butter
Chicken and Tomato Sauce (rhagorol)
Chickens' Livers, Hearts and Sauce (da iawn).
Peaches. Apples. Grapes. Cheese.

Cawsom botel o win rhagorol y wlad am 1s. 6d. Ciniawem a drws y gwesty yn agored i'r stryd ; a thyrai plantos yr heolydd yno i gael cipdrem ar y barbariaid tramor yn bwyta. Daeth plisman heibio ; gyrodd hwy ymaith ; ond yn mron cyn i wr y gyfraith droi ei gefn, yr oeddynt yn ol eto. Ychydig o ddylanwad sydd gan yr heddgeidwaid yn y wlad dlodaidd hon. Bach yw'r tâl a gant, ac y maent yn byw fwyaf ar roddion cil dwrn. Ar ol cinio crwydrasom hyd yr heolydd. Gwelsom lawer o wragedd yn gwerthu pysgod, ac yr oedd golwg ddyddorol ar y benywod—a'r pysgod hefyd ! *Bonito* yw'r pysgodyn welir amlaf yma : math o *electric fish* ydyw ; edrych yn dra gwydn, ac nid yn rhyw fwytadwy iawn. Wedi dychwelyd i fwrdd y llong gwelem oleuadau'r dref yn rhesi prydferth hyd làn y dòn ; a chlywsom fiwsig y seindyrf yn hofran atom dros y tònau. 'Roedd goleuadau pymtheg o longau yn disgleirio a serenu'r môr. Onibai am ambell i adgof o arogl anhyfryd yn cael ei gludo gyda'r awel o'r tir, buasai'r sefyllfa yn un wir farddonol ;

ond mae anghydgord yn mhob miwsig.

Mae'r cloc yn taro deuddeg ; distawa'r gerddoriaeth ar y lan ; ac y mae rhodianwyr y dref yn myned i'w gwelyau.

Dydd Gwener. Diwrnod poeth, ond cododd awel ganol dydd. Treuliais y bore ar y bwrdd yn darllen. Wedi blino ar y llyfr, treiais fy llaw ar bysgota gyda llinyn a bach ; ond fel y rhan fwyaf o bysgotwyr ereill, heb ddala dim.

Ar ol tê aethom i'r lan, a rhoisom dro i'r eglwys, adeilad newydd hardd, gyda ffenestri lliwiedig heirdd, ac allor farmor gain iawn.

Yr oedd crytiaid y dref dipyn yn *cheeky*. Yr oedd yr offeiriaid mor aml a chropynau eithin ar fanc Sion Cwilt. Edrychai y boneddigesau tywyll yn falch a ffroen-uchel yn eu mentyll duon, neu *mantles* fel y gelwir y llen a wisgant am eu penau. Yr oedd arnynt lawer o olion powdwr a phaint, ac nid oedd eu gwisgoedd namyn *tinsel and tawdry*. Braidd nad oedd y gwŷr yn fwy pen-uchel na'r gwragedd. Dywed rhai wyddant wrthym yr â llawer o'r Yspaenwyr hyn am wythnosau ar ympryd er mwyn cael dillad i barado mewn gwychder. Gwelsom rhyw *seignor* balch a'r teulu yn gyru allan mewn cerbyd gorwych—yn cael ei dynu gan ddau fiwlyn !

Mae'r mynyddau heddyw'n gorwedd yn ddiog dan haen dew o nydden haf, ac ambell i graig lefn yn disgleirio drwyddo yn ngoleu'r haul.

Dydd Sadwrn (Awst 21). Yr ydym am fyned i Bilbao heddyw, taith haner diwrnod gyda'r trên, ond collasom y trên cyntaf. Felly arosasom yn y dref hyd ddau, gan giniawa mewn *Restaurant*. Esgynasom i drên yn nghanol y stryd, gan fyned yn mlaen am dri neu bedwar can llath ; yna yr oedd yn rhaid disgyn i gym'ryd tocynau dan bistyllau o wlaw. Yn ffodus cawsom gymorth un o'r morwyr Yspaenaidd o'r llong, i dori'r iaith ac i godi tocynau yn ein lle.

Ac wele ni i ffwrdd, a'r gwlaw yn tywallt gystal ag y bu yn Llandyssul ar ddydd Ffair Glyngaeaf erioed ! Mae'r grug ar lethrau'r mynyddau yn galw'n ol gofion am yr hen wlad. Ond tyf coed lawer ar y llechweddau, castanwydd, derw, poplys ac ereill.

Yr ydym yn pasio drwy lawer tunel. Cawn ymgom ddyddorol iawn mewn Ffrancaeg ag Yspaenwr. Nid yw yn rhyw rugl iawn yn yr iaith hono mwy na minau, a chan ei fod yn ei swnio fel ei iaith ei hun, yn debyg i'r hyn y sillebir hi, mae'n haws i minau ei ddeall ; ac am yr un rheswm mae'n haws iddo yntau fy neall i. Nid wyf wedi cadw fawr o'r ymgom ar glawr, ac ni ddarfu i'r naill na'r llall o honom ddweyd dim teilwng o anfarwoldeb.

Tyfir *Indian Corn* yn gyffredin yn y wlad, a bwyteir llawer o hono gan y bobl. Ychydig iawn o adar welir yma ; mae'n debyg y delir hwy yn gyffredin iawn i'w bwyta. Defnyddir *decoy birds* i'r pwrpas o'u dal.

Yr ydym yn awr yn myned drwy stesionau'r wlad, ac y mae'r bobl yn edrych yn hynod ac hynafol, fel y gwna pobl wledig drwy'r byd i gyd. Rhyfedd fel llunir ni gan ddwylaw amgylchiad onide ?

Yr ydym yn awr yn aros o flaen gwig o *Scotch fir*, a gwelaf ysgythanod yn hedfan drostynt—*just like home*, eto. Yr ydym wedi pasio amryw weithfeydd mwyn haiarn ar y ffordd o Santander. Set beryglus yw'r mwnwyr yma, meddai 'nhw. Nid diogel myned i'w mysg unwaith yr aiff yn nos. Gwelwn mor bwysig yw ein gwlad wrth weld yr enw hwn ar y *carriage* yr ydym yn teithio ynddo :—

"*The British Wagon and Carriage Company, Bristol.*"

Yn Lloegr a Ffrainc y gwneir bron holl beirianau'r wlad ddiog hon. Paham y mae wedi disgyn cymaint er yr unfed ganrif ar bymtheg ? Pa le mae'r gwŷr luniodd longau'r Armada ? Mae'r bobl yn y *compartment* yn edrych ar John a'r cap-

ten a minau gyda syndod. Nis gwyddant pa iaith a lefarwn, er nad yw ond Saesneg, a thipyn o dinc Cymraeg ynddi, efallai.

Yr ydym weithian yn chwyrnellu drwy'r *tunnels*, dros bontydd, ac hyd leoedd corsiog ag anial. O bob tu i ni cwyd mynyddau geirw pig-dyrog, a'r niwl yn hongian megys cwrtens ar eu hymyl.

Cyrhaeddasom Bilbao am haner awr wedi chwech. Cawsom gwpanaid o goffi a llaeth (*café au lait*) mewn gwesty yno. Y mae yma dai uchel, heirdd, gyda *flats* o'r math diweddar. Y mae yma chwareudy mawr. Edrych y lle yn hollol *cosmopolitan*, a chlywir bron bob iaith yn Ewrob yma.

Yr ŷm yn bresenol mewn *Electric Car*, a'n hwynebau tua St. Nicholas, lle bwriadwn dreulio'r nos. Oddeutu wyth o'r gloch cyrhaeddasom St. Nicholas, ac aethom i *Restaurant* Seisnig yno. Chwareuodd y capten a minau bum neu chwech *game of English billiards* ac yr oedd hyn yn amheuthyn i ni, gan nad yw *billiards* y Cyfandir o fawr beth i Brydeiniwr.

Arllwysai'r gwlaw yn rhaiadrau, ac edrychai'r heolydd yn ddiflas ddigon. Acw ar yr afon mae llongau mawrion i'w gweled yn ngoleu'r ffwrnesi blast sydd yn rhuo dros y dwr. Yr wyf wedi laru ar ftrwythau a gwin a grawnwin y Cyfandir, ac yn dyheu am gwpanaid o dê Cymru. O am ddised o dê! Yspaenwr yw gwr y tŷ, ond sieryd Saesneg yn rhugl, a Saesnes yw'r wraig, a golwg dipyn yn drist ac alltudiedig arni. Mae'r gwr yn llawn bywyd a siarad; mae gan yr Yspaenwyr yma ddigon i'w ddweyd; gymaint yn haws ganddynt yw dweyd na gwneud!

Dydd Sul. Diwrnod gwyntog a niwlog, ond eto'n glos. Clywaf yr awelon yn chwiban dros ben y tŷ. Yr wyf yn edrych allan ar yr ardd yn nghefn y tŷ, a phren *pears* yn tyfu ynddi; y tu hwnt gwelaf gae o *Indian Corn;* a thu hwnt i hwnw eto, y mynyddau uchel, a llwybrau yn croesi eu gilydd hyd eu llethrau, a ffordd yn oleddu i fyny wedi ei thori yn ddwfn yn y ddaear ruddgoch.

Ymladd teirw yw'r *great attraction* yma heddyw. Os am weled 20,000 o oreugwyr Bilbao yn edrych ar haner dwsin o fechgyn yn brathu teirw oddiar gefnau hen geffylau truain, a bwmbwrth ar un llygad i'r hen greaduriaid diniwed, y prydnhawn hwn am dani! Tri swllt—! dyna'i gyd. Cawn weled rhianedd blodeuog Yspaen, a bechgyn gobeithiol gorynys Iberia, yn gwledda eu llygaid ar waed teirw, a choluddion y ceffylau diniwed a frethir gan eu cyrn.

Gormod i Gymro ei ddal! Rhodiaf y gerddi yn y dref yn nghwmni swyddog ieuanc o Sweden, a chawn ddifyrwch mawr yn ceisio deall ein gilydd. Mae ganddo wybodaeth amherffaith iawn o Saesneg, ac yn anffodus myn siarad a mi yn yr iaith hono, er mwyn practis! Y mae'n llanc mor hardd fel y tyn sylw yr Yspaenesau llygeitu o gylch, ond mor lân a diniwed yr ymddengys! A chredaf ei fod.

Dydd Llun (Awst 24ain). Aethom i Portugalete y bore heddyw. Y mae'n ddiwrnod clos a chymylog eto. Yma ceir dau *bier* enfawr yn ffurfio cylch, fel dyn yn estyn allan ei freichiau, ond y naill ychydig y tu allan i'r llall; felly geill y llongau ddyfod i mewn, ond cedwir y tonau allan. Yma eto ceir tai uchel, yn wyn, a llwyd, a gwawrlas, gyda llechi cochion ar eu penau, fel yn mron yn mhob man arall a welsom ar y Cyfandir. Mae coed hyd ymyl y ffyrdd, a'r *cafés* ar ochr yr heolydd yn debyg iawn i westai Ffrainc. Y mae pont *Transbordeur* ardderchog yma; mae'r pontydd yma yn gyffredin ar y Cyfandir, ond ychydig o honynt a geir yn Lloegr, o leiaf hyd yn hyn.

Yr wyf yn ysgrifenu'r geiriau hyn tu allan i westy a lleni o sinc uwch fy mhen yn fy amddiffyn rhag y gwlaw. Y mae seindorf yn chwareu oddi mewn; ac y mae llawer o bobl yn brecwasta tu allan.

Dydd Mawrth. Wedi cryn ffwdan i gael y tocynau, gan nad oedd genyf ond digon o *Spanish* (yr iaith wyf yn feddwl, nid *spanis)* i godi tocyn ail ddosparth. Benyw oedd yn rhoi

tickets allan, a phan ofynais iddi am dri thicked ail ddosbarth i Santander tywalltodd allan ffrwd o hyawdledd oedd mor ddealladwy i mi a chlebar gwydd Nani Bantbach! Ceisiais ateb mewn cymysgedd o Gymraeg, Saesneg, French, Latin, Yspaeneg a natur ddrwg—ond yn ofer. Ac yr oedd y bobl yn y *gwt* yn aflonyddu. Rhois y peth i fyny fel *bad job*, a gorfu i mi fyned yn ol at John a'r Capten i gyfaddef fod y fenyw yn y *ticket office* wedi myn'd yn *one too many* i mi. Chwarddodd y ddau ar fy mhen, gan haeru os collwn y tren iddynt, mai arnaf fi y byddai talu'r bil am y nos hono. Ar hyn wele Yspaenwr ieuanc yn dyfod ataf ac yn dweyd rhywbeth wrthyf, ac o'r gymysgedd o Saesneg, Ffrangeg, ac Yspaenaeg, deallais nad oedd *Second Class* ar y tren hwnw. Euthum eto, gofynais am dri thocyn o'r dosparth cyntaf a therfynodd y cyfan—wel, yn *first class!*

(I'w barhau.)

ADGOFION AM YSGOL PONTSIAN.

Darfu darllen ysgrif alluog ac amserol Dr. Davies, Ysgol y Sir, Aberystwyth, ar y testun dyddorol—"Edrychwch ar y graig y'ch naddwyd" enyn ynwyf chwant ac awydd i anfon ychydig adgofion am yr ysgol uchod, ac yn neillduol am y flwyddyn 1862 sef y flwyddyn ddiweddaf ddarfu i mi dreulio yn yr ysgol enwog a nodwyd cyn ymaflyd o honof yn y gwaith caled a phwysig o fod yn athraw mewn ysgol ddyddiol am dros ddeugain mlynedd yn yr un plwyf, sef Llanfihangel-ar-arth. Y cyfeiriad wna Dr. Davies at Gwilym Marles—fel esiampl i fyw yn ein cof o wroldeb a ffyddlondeb teilwng o efelychiad pleidwyr rhyddid y dyddiau hyn—ddarfu mewn modd neillduol apelio ataf. Yn y flwyddyn 1858 y cefais y pleser o weld Gwilym Marles y tro cyntaf pan oeddwn yn cadw ysgol yn New Inn ger Pencader. Yr oedd heb lwyr ddarfod yn Mhrif Athrofa Glasgow y pryd hwnw ac heb enill ei M.A. yn gyflawn.

Os da yr wyf yn cofio, bu farw

MR. PETER JOSEPH

yn y flwyddyn 1857 ac yr oedd Gwilym pan gartref ar ei wyliau gyda ei ewythr ger Gwernogle yn gwasanaethu yn achlysurol eglwysi Llwynrhydowen a Chapelyfadfa y rhai fuasent dan ofal y bugail da Mr. Joseph.

Yr oeddwn yr amser hwn yn lletya mewn tafarndy o'r enw Blossom Lodge, a byddai Gwilym yn dra aml yn yr un ty ar ei deithiau yn ol a blaen o Gwernogle i Lwynrhydowen. Nid oedd ei iechyd yn rhyw gryf iawn y pryd hwnw, ac yr oedd yn dra gofalus i sicrhau os gallai mewn un modd wely "cras" fel y dywedir. Dywedais wrtho fod iddo roesaw i gysgu gyda fi bob tro y byddai yn dod i'r lle, ac felly y bu a daethom yn gryn gyfeillion ar un waith a bu hyny o fantais fawr i fi wedi hyn. Aethum yn ol i Ysgol Pontsian yn 1860 wedi tair blynedd o gadw ysgol yn y New Inn a Phencader, ac yr oedd cyfle genyf pan yn dewis i fyn'd i wrando Mr. Thomas i'r Llwyn a mynych y gwnawn, er fy mod wedi ymaelodi gyda'r Annibynwyr yn Carmel. Yn y *Shop* y byddai y pregethwyr braidd bob amser yn cael ymborth. A gwnawd deddf, a bu mewn grym tra bum yn aros yn yr ysgol—fod i mi

gael ciniaw gyda Gwilym bob Sul y byddai yn pregethu yn y Llwyn yn y boreu. Nid wyf yn cofio ddarfu i mi unwaith gael fy ngalw i gyfrif am dori'r gyfraith hono. Yr wyf yn cofio clywed Kilsby unwaith ar ddydd Cymanfa, wedi codi i hwyl uchel, yn bloeddio—

"Bobol! Rhaid Myn'd Drwy y Cylla at y Galon"

Os am wneud trefn arni"; a chyda llaw, meddai "y mae y gwr sydd yn eich anerch yn *enjoyo* ciniaw dda gystal a neb pwy bynag." Dywed yr ysgrifenydd yr un peth.

Yr oeddwn yn lletya yr amser y cyfeiriaf ato mewn bwthyn ger y *Shop* o'r enw Blaenwaun gyda hen wraig ddoniol o'r enw Peggy, ac yr oedd yn cydletya a mi fachgenyn ieuanc penfelyn addawol iawn yr hwn erbyn hyn sydd wedi esgyn yn ddigon uchel fel ag i gael ei adnabod fel llenor-fardd, Mr. D. H. James, Beilibedw, Llanllwni.

Yn awr wedi hir ragymadroddi fel hyn, rhaid disgyn fel yr arferai rhai o'r hen bregethwyr adwaenwn pan yn hogyn, ddyweyd, at brif amcan yr ysgrif hon, sef rhoi desgrifiad byr o daith gymerwyd gan dri pherson un prydnawn dydd Sul o Lwynrhydowen i Lanbedr, o saith i wyth milldir o ffordd, i wrando pregeth ymadawol yr enwog a'r erlidiedig

Dr. Rowland Williams

Is-athraw y Coleg. Bychan o gorph a mawr o ben oedd y Prif-athraw hwn. Dim ond fy hunan yn unig, a mi eto ar dir y byw, fedr roddi hanes y daith hon wedi haner can mlynedd o frwydro yn anialwch bywyd.

Y mae yr enwog Barch. William Thomas, M.A., wedi croesi y llinell er ys blwyddi lawer, ac hefyd y difyr a'r diniwed Mr. William Thomas, y *Shop*, wedi tirio yr ochr draw er ys llawer blwyddyn, ond yr ysgrifenydd wedi ei adael ar ol, ond erbyn hyn yn pabellu yn agos i'r afon.

Dyna daith ddifyr ac adeiladol gawsom. Gwilym yn barddoni ac englyna. William Thomas yn ei hwyliau goreu yn ein difyru a'i arabedd diball, a finau pan fyddai cyfle yn rhoi, yn taflu yn ol y dawn oedd ynwyf, air i mewn yn awr ac yn y man. Yr oedd traul y daith yn ol yr *Arfaeth* i ddisgyn ar ysgwyddau llydain y caredig Mr. Thomas, o'r *Shop*. Cyrhaeddwyd y Coleg yn brydlon a chafwyd gwasanaeth bywiog—canu rhagorol a phregeth odidog yn ol barn y galluocaf o'r tri wŷr hyn i farnu pregeth. Os nad yw fy nghof yn fy nhwyllo, yr oedd y testun wedi ei gymeryd o'r Salm fawr:—"Llawer sydd yn fy erlid ac yn fy ngwrthwynebu; er hyny ni throais oddiwrth dy dystiolaethau." Cofier nad wyf yn berffaith sicr o'r testun. Cawsom roesaw mawr gan rai o wŷr y Coleg. Yr oedd amryw o honynt yn adwaen Gwilym Marles — yn gwybod ei hanes fel ysgolhaig, bardd, pregethwr ac athraw.

Yr oedd yr awrlais wedi taro deg cyn ymadael o honom o dref enwog Llanbedr. Wedi cael pryd lled dda ar draul y boneddwr a enwyd, ymadawsom gan deimlo yn gryf a chalonog i wynebu y daith yn ol. Bu Mr. Thomas mor garedig a rhoi i ni swm a sylwedd y bregeth ar y daith yn ol. Rhoddodd i ni hefyd fras linelliad o'r Traethawd am yr hwn y cafodd Mr. Williams ei fawr erlid. Taith ryfedd ar lawer ystyr oedd y daith hon ac er fod haner canrif er pan gymerodd le y mae adgofion mor fyw yn fy meddwl a'm cof, fel pe wedi digwydd yr wythnos ddiweddaf. Amser a balla i mi fanylu ar yr holl gydymddiddan wyf yn gofio gymerodd le ar y daith adref ar y nos Sul byth-gofiadwy hwn. Gwr galluog dros ben oedd Gwilym—llawn caredigrwydd a natur dda.

Yr oedd y wawr yn tori foreu Llun cyn cyrhaedd y Llwyn ac yr oedd ceiliogod Pwllaubryn yn eu hwyliau goreu yn telori eu hanthem o groesaw i ni ar derfyn taith mor bleserus.

Rhaid troi bellach i ddyweyd gair am yr hen athraw parchus ac anwyl

Yr Enwog Gamaliel

wrth draed yr hwn y cafodd nifer

luosog o honom ein meithrin a'n cynorthwyo i droi mewn gwahanol gylchoedd o wasanaeth mewn byd ac eglwys.

Os oes ychydig ddyddiau eto yn ol i mi yn y byd, ac os ceir hwyl, bydd i mi anfon ysgrif i'r YMOFYNYDD o'm adgofion am y rhai wyddom godwyd yn Ysgol Pontsian i safleoedd anrhydeddus fel morwyr, cyfreithwyr, meddygon, offeiriaid, athrawon, pregethwyr, &c.

Yn gweinyddu mewn angladd yn Tynant, Ciliau Aeron, y gwelsom y Parch. Thomas Thomas am y tro cyntaf. Gwr ieuanc oedd y pryd hwnw, prydferth yr olwg, yn gwisgo yn ddestlus, heb fod yn goegaidd, oddeutu wyth ar hugain oed, beth bynag dyna'r argraph adawodd arnom ar y pryd.

Cafwyd pregeth y bu cryn siarad am dani yn yr angladd gan yr athraw ieuanc. Y mae y testun ar fy nghof heddyw ac er fod yn agos i 60 mlynedd oddiar hyny nid wyf wedi anghofio y testun a'r sylwadau gwreiddiol arno. Dyma'r testun—"Gwyliwch a gweddiwch rhag eich myned mewn temtasiwn. Yr yspryd yn ddiau sydd barod ond y cnawd sydd wan." Y testun yn taro i'r dim i'r amgylchiad prudd fel y gwyr pobl dda Ciliau Aeron. Darfu i mi ryw ddydd pan yn rhydd ymddiddan a Mr. Thomas gyda golwg ar bregethu a chyfansoddi pregethau gyfeirio at y bregeth a nodwyd a'r sylwadau pert gafwyd ganddo oddiwrth y testun "Yr wyf wedi llwyr anghofio yr oll," meddai, a diolchodd yn wresog i mi am ei gofio am y testun a'r sylwadau, a chyda hyny dyma fe yn rhoi ei law yn ei logell ac yn estyn i fi ddarn o arian mwy nag a arferai pregethwyr go dda gael 50 mlynedd yn ol.

Diolchais iddo fel y dylwn wneyd am y darn arian. "Dim diolch i fod y tro hwn," meddai yntau, "y mae talu i fod am bregeth dda." Byddaf, er yn dra anaml, yn cael cyfle i ysgwyd llaw a Mrs. Thomas ei weddw barchus, ac a Mrs. Dr. Jones ei unig ferch Ymddengys yr hen athraw caredig o flaen fy meddwl bob tro y cymer hyn le. Hir a dedwydd oes i'r ddwy foneddiges a'r wyrion yw dymuniad yr ysgrifenydd.

Terfynaf y tro hwn heb haner dyweyd yr oll rhag blino y darllenydd a meithder.

EVAN EVANS.

Llanfihangel-ar-Arth.

DYGWYDDIADAU NODEDIG.

II.

1620.—Fe hawlir gan rai mai yn Mlaencanaid ger Merthyr Tydfil y sefydlwyd yr eglwys anghydffurfiol gyntaf yn Nghymru, a hyny yn 1620.

1662.—Trowyd Samuel Jones, M.A., un o'r ddwyfil allan o Eglwys Llangynwyd. Efe gychwynodd y Coleg Anghydffurfiol cyntaf yn Nghymru. Bu farw 1697 yn 70 oed.

1698.—Ordeiniwyd Roger Williams yn weinidog Cefnarthen, ger Llanymddyfri, a Chwmyglo, ger Merthyr Tydfil. Tybia Dr. Rees mai efe oedd yr Ymneilduwr cyntaf i bregethu Arminiaeth yn Nghymru. Fel hyn y mae Sion Llewelyn yn dadgan ei alar :—

Wedi marw Rosser William,
Gwr oedd a'i lwybrau megys Abram,
A'i symud ymaith gan farwolaeth,

Ni wyddwn beth a wnawn gan hir-aeth ;
Gwrando hwn, a gwrando arall,
Weithiau'n dwlio, weithiau'n deall,
Rhai'n gwledda'n fras ar seigiau cyfan,
A minau'n wylo am fwy o halan.

1760. — Ganwyd Daniel Davies yn Nyffrynllynod. Addysgwyd ef gan ei frawd Evan Davies, Llanedi ; ac yn Ngholeg Caerfyrddin 1779—1783 ; gweinidog Ynysgau 1786—1810 ; Watford 1826—1831 ; Cefncoed 1832—1837. Bu farw yn Mhontypridd Awst 15, 1853 yn 93 oed, Gweler ei lythyr dyddorol yn YR YMOFYNYDD.

1760.—Y Dr. Abraham Rees yn mysg y tri enwad yn llongyfarch Sior III., ar ei esgyniad i'r orsedd ; a thrachefn yn mhen triugain mlynedd yn blaenori gweinidogion y tri enwad yn eu llongyfarchiad i Sior IV, ar ei esgyniad yntau i'r orsedd.

1763.—Josiah Rees yn weinidog Gellionen am fwy na deugain mlynedd (1763 — 1804)—YMOFYNYDD 1873 tud. 107.

1772.—Cyhoeddwyd ail argraffiad o ganeuon Sion Llewelyn, Cefncoed.

1777.—Bwriwyd tri aelod o gapel Ysgetty, sef Robert Terry, John Rosser, a John Matthew, i lys Esgob Tyddewi, a chawsant eu hesgymuno, am wrthod talu treth eglwys. Tybir mai hon yw yr enghraifft olaf o esgymundod esgobol yn Nghymru.

1783.—David Davies a Christmas Evans yn cael eu derbyn i gymundeb yn Mhenrhiw gan y Parch. D. Davis, Castell Hywel. Trodd Davies at yr Annibynwyr, a daeth yn enwog iawn fel Davies Abertawe, ac Evans at y Bedyddwyr. Collwyd y ddau i'r enwad o bosibl am nad oedd llwybr i'r pwlpud ond trwy ddrws rhyw goleg. Gosodid pwys mawr ar weinidogaeth ddysgedig y pryd hwnw.

1783.—Y Parch. D. Davis yn symud o Ciliau i Gastell Hywel. Pa bryd yr aeth i fyw i Lwynrhydowen? Yr oedd yno pan fu farw John ei fab yn 1810.

1801.—Y Parch. D. Davis, mab Davis Castell Hywel, yn sefydlu yn Nghastellnedd fel gweinidog yr achos Undodaidd yno.

1803.—Cychwynwyd yr achos Undodaidd yn Ystrad (Rhydygwin yn awr). Cofiwn yr hen adeilad yn dda.

LLITHIAU MYFYRIWR.

Cyn dyfod at fwrn fy ysgrif dymunaf ddiolch i Myfyriwr am ei erthyglau cyson a chynorthwyol yn YR YMOFYNYDD. Wrth gwrs, ni olyga hyny fod Myfyriwr a minau bob amser yn cydweled. Wrth ddarllen ei erthyglau diweddar ar adnodau'r "Gair" rhedai'm meddwl yn ol i'r amser yr arferwn fynychu'r Ysgol Sul yn nglyn ag un o gapeli Undodaidd Ceredigion. Yno clywn y cewri'n ymddadleu ac ymddadrus pynciau dyrus eu ffydd. Mwyaf dyddorol, efallai, oedd eu clywed yn ymdrin ag agweddau o'r gwirionedd a'n gwahana fel enwad oddiwrth ereill o'n cyd-Gristionogion. Cofiaf ddysgu'n fore mai ystyr "y gair" yn nechreu'r Efengyl yn ol Ioan oedd "Doethineb." Ond pa un bynag a foddlonid pawb o ddysgyblion yr Ysgol ai peidio gan y deongliad

hwn, mae'n amlwg na theimla Myfyriwr yn hollol dawel ei feddwl fod yr esboniad yn un digon cyflawn. Yr oeddwn newydd ddarllen ei ysgrif yn YR YMOFYNYDD pan gefais y fraint o wrando y Dr. James Drummond yn pregethu ar yr un pwnc. O'i garedigrwydd rhoddodd Dr. Drummond fenthyg ei bregeth i mi er mwyn i mi gydnabyddu mwy â'r cwestiwn ac i gyfleithu'r hyn a fynwn o honi i'r YMOFYNYDD. Yn swn symud ac ymfudo ceisiaf gyfleithu rhan o'r bregeth y cyfeiriais ati. Maddeued y darllenydd i mi am ryddgyfieithu'n awr ac eilwaith am nad yw llyfrau'r Apocrypha wrth law i gyfeirio atynt. Seiliodd Dr. Drummond ei sylwadau ar y geiriau canlynol:—

Ecclesiasticus xxiv. 21—Doethineb a ddywed "Y rhai a'm hyfant i sychedig a fyddant eto."

Ioan iv. 14. Dywed Iesu, "Pwy bynag a yfo o'r dwfr a roddwyf fi iddo ni sycheda yn dragywydd."

"Wrth sylwi ar y tebygolrwydd a'r gwrthgyferbyniad rhwng y ddau ddyfyniad hyn ni allwn lai na meddwl fod yna gysylltiad llenyddol agos rhwng y ddau. Mae'n anhawdd credu fod yr Efengylydd yn anghynefiin a'r cyfleithad Groeg o'r Ysgrythyrau. Yn wir, dichon ei fod hyd yn oed yn gydnabyddus a Doethineb Iesu fab Sirach yn ei ffurf wreiddiol.

Cadarnheir y dybiaeth fod Ecclesiasticus ar feddwl ysgrifenydd yr Efengyl pan gofir y tebygolrwydd rhyfeddol a'r gwrthgyferbyniad sydd rhwng cynwys Rhagair yr Efengyl ag eiddo'r 24ain benod o'r llyfr hwn o'r Apocrypha. O ran gwerth llenyddol mae'r ddau'n dra gwahanol. Ysgrifenai'r Apostol cyn fyred ag oedd bosibl, ag awdwr Ecclesiasticus mewn dull manwl ac areithyddol. Ond er gwaethaf arddull saif tebygolrwydd y syniadau a'u gwahaniaethau'n amlwg ger ein bron. "Daeth Doethineb allan o enau'r Goruchaf. Hi oedd o'r dechreuad." Felly'r un yw Doethineb Ecclesiasticus a'r "Gair" a oedd "yn y dechreuad gyda Duw." Fel yr oedd Doethineb i'w chanfod drwy yr holl greadigaeth felly hefyd drwy y Gair "y gwnaethpwyd pob peth ar a wnaethpwyd." * * * * Ymddengys i Ddoethineb chwilio'n ofer am orphwysfa yn mhlith cenedloedd y ddaear; felly hefyd ni adwaenai'r byd oleuni'r Gair a lewyrchai yn y tywyllwch. Gan hyny dymunwyd ar Ddoethineb wneuthur Jacob yn dabernacl iddi ei hun ac yno o'r diwedd hi gafodd orphwysfa. Daeth y Gair a wrthodwyd gan y byd at ei eiddo ei hun "a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef" oddigerth nifer fechan o honynt i'r rhai y rhoddes efe "allu i fod yn feibion i Dduw." Yn olaf, dywedir, "Yr holl bethau hyn yw llyfr cyfamod y Goruchaf Dduw, y ddeddf a orchymynodd Moses i ni'n etifeddiaeth." Mewn geiriau ereill, Ymgorphorodd Doethineb yn nghyfraith Moses, eithr yn wrthgyferbyniol i hyn 'y gair a wnaethpwyd yn gnawd' ac mewn ffurf ddynol a dabernaclodd yn ein plith ni. Dylid sylwi mai'r un gair "tabernacl" a ddefnyddir yn y Groeg yn y ddau gyfansoddiad. Diameu fod y gwrthgyferbyniad amlwg hwn yn un bwriadol. Sylfaen y grefydd Iuddewig oedd Ysgrythyrau a gredid i Dduw roddi i'r byd drwy Moses. Gorphwysai nerth y grefydd newydd yn ysbryd gras a gwirionedd a fodolai yn Iesu Grist—nid ar dudalenau llyfr marw, eithr mewn dyn yn yr hwn y dadguddiwyd ewyllys gariadus y Tad a'i faddeugarwch tuag at yr afradlon. I ddyfynu geiriau'r Efengylydd "Y gyfraith a roddwyd trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist."

J.S.W.

ODDIAR Y TWR.

Ymddengys fod awdurdodau Eglwys Lloegr, yn eu Senedd Eglwysig —*The Lower House of Convocation*, fel ei gelwir—ar hyn o bryd yn brysur wrth y gwaith o adolygu y

Llyfr Gweddi Gyffredin.

Y mae hyn, y mae yn debyg, wedi creu tipyn o anesmwythder, os nad o ddychryn, yn y gwersyll Eglwysig. "Paham," meddir, "y rhaid ei adolygu o gwbl? Ai nid yw, fel y mae, yn fynegiad perffaith o'r ffydd a draddodwyd unwaith i'r saint? Ai nid geiriau Duw yw ei eiriau? Ai nid meddyliau Duw yw ei feddyliau? Priodolir i'r adolygwyr amcanion gau, a rhoddir iddynt enwau anymunol. Y mae ateb un foneddiges i bregethwr a ddadleuai dros yr angenrheidrwydd o wneud cynydd yn nodweddiadol iawn o ogwydd meddwl dosbarth lluosog yn y byd crefyddol. "Beth bynag a gymerwch ymaith," meddai wrtho, "gadewch i ni o leiaf y syniad o gosb dragwyddol." Dygid iddi hi, yn ddiau, ryw gymaint o gysur gan y meddwl fod miliynau o'i chyd-ddynion i fod yn wrthddrychau cospedigaeth di-ddiwedd mewn byd arall; ac yr oedd am i'r angen hwn i'w henaid gael caniatad i aros. Efallai na ddylid dod i lawr gyda llaw rhy drwm ar yr yspryd amlygir gan ddywediad y foneddiges. Pan y mae'r enaid wedi arfer ymorphwys ar agweddau neillduol o'r gwirionedd, er yn agweddau amherffaith ac amrwd, ac i gael eu gordyfu gan agweddau gwell a pherffeithiach, nid mater o syndod yw fod pob cynydd a fygythythia'r angorfeydd hyn yn creu anesmwythder a dychryn. Dyna'r yspryd sydd, er hyny, wedi bod trwy'r oesau yn un o'r rhwystrau penaf ar ffordd pob cynydd crefyddol. Ac nid yw wedi agos ddarfod eto. Daw i'r golwg yn amlwg iawn yn y mudiad y cyfeiriwyd ato yn y llinellau cyntaf. Cydnabyddaf, cyn myned yn mhellach, nad wyf yn gyfarwydd iawn â hanes y mudiad hwn, er fy mod, er's cryn amser, wedi gweled cyfeiriadau achlysurol ato. Nid yw'r diffyg hwn, fodd bynag, yn rhwystr i mi i gyfeirio at a sylwi ar un ffaith mewn perthynas iddo

A Amlyga'r Llwfrdra

a nodwedda, nid yr Eglwys Sefydledig yn unig, ond yr holl enwadau iawnffyddol hefyd, pan y cymhellir hwynt i symud ris yn y blaen—ond a nodwedda Eglwys Lloegr i raddau mwy amlwg, fel y credaf, na hyd yn oed yr enwadau iawnffyddol. Un o'r gofyniadau roddir i ddiaconiaid ar adeg eu hurddiad, yn ngeiriau'r Llyfr Gweddi Gyffredin *fel y mae*, yw hwn —"A ydych chwi yn ddiffuant yn credu holl Ysgrythyrau Canonaidd yr Hen Destament a'r Newydd?" Gofyniad yw hwn ddaeth i fodolaeth ar adeg pan y credid fod yr oll o'r Beibl yn llyfr geiriol ysprydoledig. Heddyw, i bob dyn sydd wedi dysgu darllen y Beibl yn ngoleuni rheswm a gwybodaeth ddiweddar, y mae yn

Anmhosibl Rhoi Ateb Cadarnhaol

i ofyniad o'r fath hyn, oherwydd, beth fyddai ateb cadarnhaol iddo yn olygu? Golygai fod yr atebwr yn golygu'r syniadau isel geir yn y Beibl am Dduw, yn credu fod Duw wedi gwneud y gweithredoedd erchyll briodolir iddo gan rai o'r ysgrifenwyr, yn credu'r syniadau melldithiol a anharddant lawer o'i dudalenau—gyda llaw, yr wyf cyn hyn wedi bod yn gwrando offeiriaid yn darllen rhai o'r ymadroddion melldithiol hyn mor ddidaro a phe yn darllen yr ymadroddion mwyaf diniwed yn y byd —yn credu'r gwyrthiau anmhosibl a gofnodir yn y ddau Destament, yn

credu'r amrywiol dybiau am Grist geir yn y Testament Newydd, yn credu—ond i ba ddyben yr ymhelaethaf? Teimlir gan rai Eglwyswyr, ydynt wedi eu dwyn

DAN GYFAREDD Y DDYSGEIDIAETH NEWYDD

ar y Beibl, ei bod yn hen bryd iddynt i symud o'r safle a ddynodir gan y gofyniad uchod, a chynygiwyd gan un o honynt fod ffurf y gofyniad o hyn allan i fod fel y canlyn – "A ydych chwi yn credu yn ddiffuant fod yr Ysgrythyrau Canonaidd yn cynwys pob peth angenrheidiol i iachawdwriaeth dragwyddol trwy ffydd yn Iesu Grist?" Y mae hyn yn ddigon rhesymol; mewn ffaith, y mae yn ddiniwed iawn. Gan nad pa olwg gymerir ar iachawdwriaeth, ni theimlai un Cristion rhesymol a chymharol wybodus, allem feddwl, fod dim yn y gofyniad newydd sydd beryglus nac yn ddinystriol i ffydd. Nid oes dim ynddo, ychwaith, na fedr yr ysgolhaig o'r wybodaeth eangaf ei ganiatau. Nid oes ond ychydig Gristionogion, gan nad pa mor eithafol eu syniadau duwinyddol, na chydnabyddant fod yn yr Ysgrythyrau

BOB PETH ANGENRHEIDIOL I IACHAWDWRIAETH--

i fywyd moesol ac ysprydol iach. Ac eto, gwrthodwyd gwneud y cyfnewidiad syml hwn gan fwyafrif sylweddol o'r Senedd Eglwysig. "Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd"——wel, y bydd, os nad yn wastad, eto hyd y gorfodir hwynt gan ryw allu nas gallant ei wrthsefyll i symud—gan yspryd yr oes, os nad gan ddim arall. Dyna ffaith ddaw i'r golwg yn amlwg iawn yn hanes pob Eglwys Sefydledig, sef eu bod yn ddieithriad wedi bod erioed yn rhwystrau ar ffordd pob cynydd, ac nid yn arweinyddion cynydd, fel y y dylent fod. Y mae Eglwysi Sefydledig, ein Heglwysi Sefydledig ni yn Mhrydain, fel yn mhob gwlad, wedi eu cau i fewn gan wifrau credoawl mor dŷn fel nad oes lle i un meddwl newydd nac i un wybodaeth well i weithio eu ffordd i fewn iddynt.

ESTYNER RHYDDID IDDYNT,

yn mhob man, fel yr adfywier hwynt gan ambell awel ffres. Ffaith ddigalon yw'r uchod, onide? Ond, er hyn, y mae'r byd yn symud. Wrth droi'm golwg i gyfeiriad arall yn y gwersyll Eglwysig, beth welaf? Gwelaf fod Prifysgol Caergrawnt wedi penderfynu taflu ei graddau mewn duwinyddiaeth yn agored i bawb. Un o'r sefydliadau addysgol sydd wedi dod i lawr i ni o'r gorphenol pell yw'r Brifysgol hon. Y mae genym hanes am dani, o leiaf, mor bell yn ol a'r 13eg ganrif. Hyd o fewn i'r dyddiau diweddaf, bu ei graddau mewn duwinyddiaeth yn gyfyngedig i aelodau o Eglwys Lloegr yn unig. Nid oedd derbyniad i neb i'r cylch cysegredig hwn ond yn unig i un dosbarth o'r boblogaeth. Nis gwaeth pa mor uchel ei gymeriad, na pha mor eang ei wybodaeth, yr oedd y drws yn gauedig yn erbyn pob Prydeiniwr oddieithr ei fod yn foddlon cydffurfio a'r Eglwys Wladol. Bu'r oll o'r graddau yn gyfyngedig i'r un dosbarth hyd yn mhell yn y 19eg ganrif. Dyma'r

ARGAE OLAF WEDI EI DORI

o'r diwedd. O hyn allan bydd yr Ymneillduwr yn hollol ar yr un tir a'r Eglwyswr. Tybir mai un o effeithiau anocheladwy hyn fydd taflu'r un graddau yn agored hefyd yn y chwaer Brifysgol—Rhydychen. Ydyw, y mae'r byd yn symud—yn araf. Y mae melinau Duw, fel y dywed un, yn malu yn araf neillduol, ond y maent er hyny yn malu yn fân rhyfeddol. Gorthrwm a chulni ac anwybodaeth — gorthrwm ar du'r wladwriaeth, culni ar du'r Eglwys Sefydledig, ac anwybodaeth ar du'r boblogaeth—sydd yn cyfrif yn benaf fod y sefydliadau addysgol hyn wedi bod trwy'r holl ganrifoedd yn feusydd

cloedig i naw o bob deg o fechgyn ieuainc ein gwlad. Dylem, efallai, fod yn ddiolchgar am y

BRIWSIONAU HYN O FFAFRAU.

Nid dyna'r teimlad yn hollol, fodd bynag, a'n meddiana ; eithr tymherir ef gan deimlad arall—y teimlad nad ydym wedi cael ond yr hyn a haeddwn, yr hyn y mae gan bob Ymneillduwr hawl iddo. Nid ffafraeth yw'r ddelfryd, ond cydraddoldeb. Dylai pob rhagorfraint a fwynheir yn awr gan yr ychydig gael eu troi yn freintiau y gall pawb eu mwynhau, gan nad beth eu syniadau duwinyddol.

GWYLIEDYDD.

[Y mae Rhydychen erbyn hyn wedi dilyn esiampl Caergrawnt.—GOL.]

SUT YR AETH Y BYD I BEN.

Oh ! Oh ! !—

Ysgyfarnog oedd yn ocheneidio o dan y balmwydden. "Oh ! Oh ! ! O'r anwyl ! Beth pe bai'r byd yn myned i ben, beth wnawn i ?"

Yn awr, gan mai ifanc oedd y balmwydden, nid oedd wedi tyfu yn dal. Uwchben y balmwydden yr oedd pren ffrwythau tal, pren a elwir gan yr Indiaid yn filfa. Y mae ffrwyth y filfa yn drwm ac yn dyner.

"Crac !"—wrth swn y ffrwyth yn cwympo ar y ddalen, cododd yr ysgyfarnog ar ei thraed mewn dychryn mawr.

"Y mae'r diwedd wedi dod," ebe pwss. "Mae'r ddaear yn myn'd yn gandryll," a ffwrdd a hi ar frys yn y gobaith am gael rhywfan i ddianc allan o ddinystr y byd.

Cwrdd ag ysgyfarnog arall—"Beth sy'n bod ?"—"Dalla i ddim aros. Mae'n ddychrynllyd."—"Beth sy'n bod ?"—"Mae'r byd yn myned i ben !"

A dyna'r ddwy yn ffoi fel ynfydion. Gofynwyd yr un cwesttwn gan un arall, a chafwyd yr un ateb, a ffodd hono hefyd. Yna'r drydedd, y bedwaredd, y bumed, y chweched, &c., hyd at ganmil o ysgyfarnogod, oll yn ehedeg i ffwrdd oddiwrth yr hen ddaear, neu o leiaf felly y meddylient hwy !

Chwi welwch fel mae'r stori yn ymwasgar, ac fel yr oedd yr ysgyfarnogod yn eu penwendid yn cymeryd yr oll i fewn.

"Beth sy'n bod ?" ebe danas wrth yr ysgyfarnogod.—"Dallwn ni ddim aros i ddweyd. Mae'r byd yn myned i ben ?"

"Os posib ! Ofnadwy !"—a dyna'r ddanas hithau yn trotian i ffwrdd ar ol yr ysgyfarnogod.—Ar hyny, dyna faedd gwyllt yn gofyn yr un cwestiwn, ac ar ol cael ateb yn uno a'r trotianwyr. Ac ar ol hyny dyna elc yn dod, a buffalo, ac ych gwyllt, rhinoceros, ac elephant, ac oll yn uno a'r llu. Erbyn hyn yr oedd y dorf a frysient oddiwrth y dinystr tybiedig yn ymestyn i ryw dair milldir o hyd, o'r ysgyfarnog yn y ffrynt at yr elephant oedd yn cario'r gwt. Yr oedd yr olygfa yn ardderchog i un fyddai am dipyn o gymhorth i chwerthin.

Gwelodd llew yr olygfa, a cheisiodd wybod achos y cynwrf mawr. Rhuodd yn uchel dair gwaith, nes peri *holt* yn mysg y ffoaduriaid, a chreu dychryn ynddynt oll.

"Beth sy'n bod ?"

"Mae'r byd yn myned i ben, syr !"

"Pwy gwelodd e'n myned i ben ?"—

"Yr elephant."—"Elephant, llefara."

"Wn i ddim, syr llew. Y teiger

ddeydodd wrthw i."—"Teiger, llefara." — "Y rhinoceros ddeydodd wrthw i."—"Rhinoceros, llefara."—"Yr ych gwyllt ddeydodd wrthw i." — Ac felly gofynodd i un ar ol y llall, nes dyfod at yr ysgyfarnogod, ac yn y diwedd at yr ysgyfarnog gyntaf.—"A welsoch chwi'r ddaear yn myned yn ddrylliau?" — "Do, syr." — "Ble gwelsoch?" — "Fel yr oeddwn yn gorwedd o dan y balmwydden ar lan y môr, clywais glap ofnadwy, a diengais gyda fy mywyd."

"Foneddigion," ebe'r llew, "gadewch y mater i mi, tra fyddwyf yn edrych am y ffeithiau. Aroswch chwi yma, ac af finau gyda'r ysgyfarnog i holi ar y spot."

Ceisiodd gan yr ysgyfarnog fach i neidio ar ei gefn, a chan frysio'n gyflym, daethant at allt o goed ar lan môr India.

"'Ble mae'r spot?"

"O, syr llew, ni feiddiaf fi fyned yn rhy agos. Y mae draw o dan y pren filfa."

Aeth y llew at y balmwydden, edrychodd o'i ddeutu. Nid oedd yno yr un crac—ddim crac-o-dwm, na'r un crac arall yn y ddaear. Ond ar ddalen fawr y balmwydden, yr oedd rhan o ffrwyth y filfa, a'i sudd yn dyferu o hyd.

"Ha!" ebe'r llew wrtho ei hun, "mi welaf beth wnaeth y swn."

"Neidia ar fy nghefn eto, gyfaill," eb efe wrth yr ysgyfarnog, ac yna brysiodd yn ei ol.

Ni ynganodd yr un gair arall nes dyfod yn ei ol a sefyll yn nghanol y dorf, ac ar unwaith aeth y pedwar-carnoliaid oll yn ddistaw fud.

"Nid oes achos i chwi flino ac ofni mwy. Mae'r hen ddaear yn ddiogel ddigon. Nid oedd yno ddim i'w weled ond ffrwyth y filfa oedd wedi dyfod i lawr gyda chlap ar ddalen y balmwydden. Tipyn yn frysiog fu'n cyfeilles yr ysgyfarnog, wrth ddyfod i'r casgliad ei bod wedi clywed y crac-o-dwm. Tynodd ei chasgliad brysiog, a ffodd gyda'i chasgliad, a chwithau oll a ffoisoch ar ol y casgliad."

F.C.G.

MARWGOFION.

HYDREF 24, yn 71 mlwydd oed, Mr. Joseph Pugh, Parkmawr, Ciliau Aeron. Cymerwyd yr ymadawedig yn glaf ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth. Ni feddyliai ei deulu fod perygl hyd y dydd olaf, a daeth ei ddiwedd yn anisgwyliadwy iawn. Mae sydynrwydd yr amgylchiad wedi ei wneud yn un caled iawn, a chydymdeimlwn yn fawr iawn a'i weddw ac a'i blant yn eu galar. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Eglwys Ciliau. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parchn. W. Owen, Rheithor Ciliau; Thomas Evans, Ficer Llanrhystyd, a Jenkin Evans, Curad, Mydroilyn. Gadawodd briod, dau fab, un brawd, a thair chwaer i alaru ar ei ol.

TACHWEDD 2, yn 58 mlwydd oed, Mrs. Rachel Davies, gweddw y diweddar Mr. David Davies, Post Office, Felinfach. Yr oedd ei phriod wedi ei rhagflaenu er's un mis ar bymtheg. Ar ol colli y tad ymddiriedai y plant yn hyfforddiant ac amddiffyn eu mham; a phe cawsai yr ymadawedig fyw yn hwy byddai i'w phlant ei chael yn gymorth mawr iddynt. Ond wele hwy wedi cael eu

siomi. Mae'r byd yn rhyfedd yn ei droion. Nerth a gaffo'r plant i ymostwng i'r amgylchiad, gan gredu fod pob peth er daioni. Yr oedd yr ymadawedig wedi cael ei chynysgaeddu â synwyr cryf ac a thymer siriol ac heddychol. Meddianai lywodraeth ar ei theimladau o dan yr amgylchiadau mwyaf cyffrous, ac ni fynwesai ysbryd angharedig tuag at neb. Yr oedd ei llarieidd-dra naturiol a'i chymeriad rhagorol wedi enill iddi edmygwyr lawer. Yr oedd yn aelod o Eglwys Rhydygwin. Ar ddydd ei hangladd daeth torf anarferol o fawr yn nghyd, yr hyn oedd yn brawf amlwg o'r parch mawr oedd iddi hi a'i theulu. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Eglwys Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Willlams, a chynorthwywyd gan y Parch. T. A. Thomas, Llandyssul. Gadawodd mewn galar mawr ar ei hol bnmp mab, dwy ferch, mam, ac un chwaer. Duw'r nefoedd a daeno ei aden amddiffynol drostynt.

TACHWEDD 15, yn 17 mlwydd oed, Lloyd Owen Davies, mab ieuengaf y diweddar Mr. David Davies a Mrs. Davies, Post Office, Felinfach. Yr oedd yr ymadawedig yn fachgen ieuanc iach a chryf, ac ni fu ei afiechyd ond am amser byr—ni chyfyngwyd ef i'w wely ond am bedwar diwrnod. Nid oedd ond pythefnos oddiar pan yr oedd ei fam wedi marw, ac yr oedd hyny yn angerddoli caledi yr amgylchiad hwn yn fawr iawn. Yr oedd yn aelod o Eglwys Rhydygwin, ac yn ffyddlon gyda'r Ysgol Sul. Y Sul diweddaf y bu yn yr Ysgol efe a'i dechreuodd. Erys hyny yn adgof hyfryd am dano. Yr oedd yn anwylyn gan ieuenctyd yr Ysgol Sul, ac amlygodd aelodau yr Ysgol Sul eu parch iddo drwy roddi blodau-dorch brydferth mewn gwydr ar ei fedd. Gorchuddid ei fedd hefyd gan amryw o flodau-dyrch oddi wrth eraill. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. B. Carolan Davies, Ty'nygwndwn. Gadawodd bedwar brawd, dwy chwaer, a pherthynasau agos eraill mewn galar dwys ar ei ol. Cydymdeimlir yn fawr â hwy. Bydded iddynt gael Tad yr amddifaid yn agos atynt, ac yn Ddiddanydd iddynt.

TACHWEDD 27, yn 42 oed, Mary Jones, Crugeryr, Talgareg. Yr oedd yr ymadawedig yn drydedd merch i'r diweddar John a Magdalen Davies, Crugeryr. Ymadawodd ag ardal ei genedigaeth yn ieuanc, a threuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn Llundain. Pum mlynedd yn ol, ymunodd mewn priodas â Mr. David Jones o Brooklyn, New York, mab i fasnachwr yn y lle hwnw. Gwnaeth y pâr ieuanc eu cartref yn Brooklyn. Yn herwydd gwaelder iechyd yr ymadawedig, dychwelasant i'r wlad hon, ac i'w genedigol le i orphen ei dyddiau ar y ddaear. Gwnaethpwyd pob ymdrech ar ei rhan gan feddygon yn America, ond ni lwyddodd dim i adfer nerth i'w chorph gwan. Derbyniodd bob gofal a thynerwch oddi ar law ei hanwyl briod, yr hwn ni arbedodd ddim er ceisio ei hadfer eto i'w chynefinol iechyd. Yn rhagwel'd ei diwedd yn agoshau, erfyniai ein chwaer am gael dychwelyd i Gymru er cael ei gorphwys-fan yn Mwlchyfadfa yn ymyl ei rhieni. Nid heb lawer o drafferth y llwyddodd ei phriod i wneud hyn. Yr oedd Mary yn gymeriad hapus iawn. Pawb o'i chydnabod a'i hoffai. Pob drws yn agored led-y-pen iddi pan ymwelai â'r hen ardal yn ystod ei gwyliau. Nid oedd ganddi ddrwg am neb i'w ddweyd. Ei hoff ymddiddan oedd adrodd hanes cydgyfarfyddiad ei chyfeillion Cymreig yn Llundain. Yr oedd ei chwmni yn tueddu i wneud bywyd yn ysgafnach. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd ei chorph i fynwent Bwlchyfadfa, yn unol a'i dymuniad. Er croesi'r Werydd bedair gwaith, yn nghyd a rhan helaeth o gyfandir America, er mwyn ei hiechyd, bu yn dda ganddi gael dychwelyd i Crugeryr at ei chwaer i orphen ei thaith. Cymerodd y Parch. E. O. Jenkins, a'r boneddwr oedranus a pharchus, Mr. Morgan Evans, Y.H., Oakford, y gwasanaeth yn y ty. Yn unol

a'i gorchymyn pregethodd y Parch. Evan Evans, gweinidog Soar, Llanbedr, bregeth hynod bwrpasol yn y capel. Gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins, gweinidog y Bwlch. Daeth torf luosog yn nghyd i ddangos eu parch a'u cydymdeimlad. I alaru ar ei hol y mae yn aros ei phriod, pump chwaer a dau frawd, yn nghyd a llu o berthynasau a chyfeillion. Cydymdeimlir yn fawr a'i phriod, yr hwn sydd eto yn aros mewn gwlad ddieithr. Erfyniwn iddo nerth a iechyd i ddal dan y brofedigaeth lem, yn nghyd a mordaith lwyddianus i ddychwelyd i'w gartref gwâg yn Brooklyn.

TACHWEDD 21, yn 63 mlwydd oed, Mr. Owen Davies, Bwlchog, plwyf Llanfihangel-ar-arth. Yr oedd iechyd yr ymadawedig wedi ei amharu er ys tro, ac aeth yntau i Ysbyty Caerdydd er myned o dan driniaeth law-feddygol, ac aeth drwy yr *operation* yn llwyddianus. Ymddangosai fel pe yn gwella yn ddyddiol, ac edrychai yn mlaen yn ffyddiog at y dydd y cawsai ddychwelyd adref, ond yn anisgwyliadwy ar y dydd uchod ehedodd ei yspryd at yr hwn a'i rhoes ef, gan adael priod, dwy ferch a mab mewn galar dwfn, heblaw brawd, dwy chwaer a pherthynasau eraill. Dygwyd yr hyn oedd farwol o hono i'r Bwlchog ac oddiyno y dydd Llun dilynol i'w farwolaeth i Gapelybryn, Cwrtnewydd. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Arthur Thomas yn cael ei gynorthwyo gan Ficer Llanfihangel, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. John Davies. Y Sul dilynol traddodwyd pregeth angladdol yn nghapel y Graig, Llandyssul, lle yr oedd yr ymadawedig yn aelod ffyddlon ac yn un o ymddiriedolwyr y capel. Nodded y Tad goreu fyddo dros ei deulu.

TACHWEDD 28, yn 42 oed, Daniel Davies, 159, High Street, East Ham, Llundain. Claddwyd yn mynwent Eglwys Llansantffraid, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan yr offeiriad. Gadawodd weddw a dau blentyn i alaru ar ei ol, yn nghyda'i fam a'i frawd a'i chwaer. Mab ydoedd i'r diweddar Evan Davies, Glanrhyd, Cwrtnewydd, a Mrs. Davies, ei briod, a brawd i Mr. D. R. Davies, prifathraw Ysgol y Cynghor. Cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddo yn Nghapelybryn ar Sul y 15fed o Ragfyr, y gweinidog yn gwasanaethu. Yr oedd wedi byw yn Llundain am 24 o flynyddau. Nerth a gaffo'r perthynasau oll i fod yn gymedrol yn eu galar.

TACHWEDD 30, o'r darfodedigaeth, Mrs. Eleanor Hughes, Maesymeillion, Cellan, yn 69 mlwydd oed. Nid oedd iechyd Mrs. Hughes yn dda er ys llawer blwyddyn, ond tebyg nad oedd neb yn meddwl fod dydd ei marwolaeth mor agos. Yn ei marwolaeth collodd eglwys fechan Caeronen un o'i haelodau ffyddlonaf. Nid un yn myn'd a dod oedd hi, gan gael ei chylch-arwain gan bob awel dysgeidiaeth, ond un yn glynu'n ffyddlon wrth ei hachos drwy bob tywydd, ac anaml y byddai ei lle hi'n wâg yn y gwasanaeth cyhoeddus ar y Sul nag ar unrhyw adeg arall, oddieithr ei bod yn cael ei lluddias gan afiechyd, ac mae'r eglwys o ganlyniad yn teimlo'n flin o'i cholli, ac yn bryderus ofyn pwy a leinw le y ffyddloniaid hyn sydd yn barhaus yn ymadael yn yr angau? A gawn ni gan y bobl ieuainc, a'r canol oed, a'r difraw i ateb y cwestiwn yn ymarferol ac ar unwaith, drwy fyned o honynt i fewn i lanw y bylchau a wneir o hyd yn rhengoedd yr achos gore gan angau. Yr oedd yr ymadawedig yn chwaer i'r diweddar Evan Davies, Blaenwaun, Cellan. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod, mab a merch ac un chwaer, a pherthynasau eraill lawer. Claddwyd yr hyn oedd farwol ohoni yn mynwent capel Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. John Davies a J. D. Jones (A.)

Mewn cysylltiad â hanes marwolaeth y diweddar Mr. Lewis Llewelyn, Caerdydd, ymddangosodd yn y rhifyn diweddaf, ysgrifena Mr. D. Owen

Evans i ddweyd nad oedd yr ymadawedig wedi tori ei gysylltiad â'r achos Undodaidd yno, er mai anaml yr oedd yn mynychu'r gwasanaeth. Yr oedd gofynion ei alwedigaeth y fath fel mai ychydig gyfleusdra gawsai i wneud hyny, er hyny gwnaeth ei ran o dan yr amgylchiadau.

GWELLIANT GWALL.—Yn y Rhifyn diweddaf wrth gofnodi marwolaeth Sarah Anne Morgans, Blaenllain, syrthiwyd i wall:—Darllener "merch David a Hannah Morgans."

MANION AC HANESION.

BLWYDDYN NEWYDD.

DAD ein hyder! Gwena'n llon
Ar y newydd flwyddyn hon;
Caed pob awr o'i hymdaith hi
Ninau'n ufydd blant i Ti.

O! Cysegra heddyw'm taith
Gyda mwy o sêl i'th waith;
Gwasgar bob amheuol nudd,
Sycha ddagrau galar prudd.

Moes dy fendith ar bob oed,
Neb yn fud i'th fawl na foed;
Caed pob dydd o'r flwyddyn fad
Ni yn nes i Ti ein Tad.—*Cledlyn.*

LLWYDDIANT. — Gyda phleser y clywsom fod Miss Annie Saunders Davies, merch hynaf Mr. a Mrs. D. Saunders Davies, Felinfach, wedi pasio arholiad am dderbyniad i'r Post Office. Daeth allan y trydydd ar restr y rhai llwyddianus. Mae wedi dechreu ar ei gwaith yn Llythyrdy Castellnewydd Emlyn. Eiddunwn iddi lwyddiant eto yn y dyfodol.

Y CYLCHGRAWN CYMRAEG CYNTAF. — Mewn darlith a draddodwyd ychydig amser yn ol yn nghapel y Bedyddwyr yn Pontardawe gan yr hyawdl Ddr. Gomer Lewis, o Abertawe, dywedodd y darlithydd mai *Seren Gomer* tan olygiaeth y Parch. Joseph Harris (Gomer) oedd y cylchgrawn Cymraeg cyntaf. Nid dyma y tro cyntaf i mi sylwi nad yw hyawdledd a chywirdeb hanesyddol bob amser yn myned gyda'u gilydd. Ac er mwyn rhoi anrhydedd lle y mae anrhydedd yn ddyledus, caniatewch i mi gywiro y gwall, a'r cam y mae y gosodiad yn wneud âg un o'm rhagflaenoriaid yn ngweinidogaeth Gellionen. Fel mater o ffaith ynte, yr *Eurgrawn* tan olygiaeth y Parch. Josiah Rees, Gellionen, oedd y cylchgrawn cyntaf i ymddangos yn Nghymru yn yr iaith Gymraeg. Ymddangosodd y Rhifyn cyntaf o'r *Eurgrawn* ar dydd Sadwrn y trydydd o Fawrth, 1770. Felly chwi welwch mai yr *Eurgrawn* oedd y cyntaf o dros dair a deugain o flynyddau, a'i fod wedi dechreu ymddangos dair blynedd cyn i Mr. Joseph Harris gael ei eni. Os oes amheuaeth yn meddwl un o'ch hynaws ddarllenwyr ar y mater hwn, ymweliad a llyfrgell gyhoeddus Abertawe a fydd yn ddigon i setlo'r pwnc am byth.—*David G. Rees* (*Gellionen*).

BOYD CARPENTER A TENNYSON. —Y mae aml i benod ddyddorol yn llyfr diweddaf Carpenter, gynt Esgob Ripon. Fel hyn y mae yn adrodd ymddiddan fu rhyngddo a'r bardd Tennyson. Ebe'r Esgob: Nis gallaf gredu y gall tad boeni ei blentyn yn oes oesoedd. Ebe Tennyson: 'Rwy'n falch o hyny. Esgob: Mi ddylwn egluro. Tennyson: Ni wnaf eich cwrto. Esgob: Nid hyny ofnaf, ond dylem fod yn onest. Tennyson:

Nid yw o un diben i ni siarad os na fyddwn. Esgob: Yr wyf yn cytuno; ond credaf mewn rhywbeth y gellir ei alw yn uffern. Tennyson: Yn sicr, rhaid carthu'r drwg allan. Esgob: Fe fydd tair afon yn y byd nesaf—nid Acheron, Phlagethon a Styx, ond yr afon Beth-allai-fod, yn yr hon y gwel dynion weledigaethau o fanteision wedi eu colli. Tennyson: Oh! Bydd hyny yn waeth fyth! Esgob: Ond bydd yn angenrheidiol er cael allan hunan. Ond nid hon yw yr unig afon. Heb law yr afon Beth-allai-fod, y mae yr afon Beth-fu, a thrydedd afon, afon Cariad, gan yr hon y mae'r gallu i adferu'r Beth-allai-fod. Tennyson: Gwir, ond y mae deddf etifeddeg. Y mae hono yn cyfrif am lawer.

NODAU DEFAID.

Gwelais ymholiad am eglurhad ar yr uchod yn YR YMOFYNYDD diweddaf. Dyma gynyg at hyny. "Penlleswch."—Hollter y clust ar ei hyd yn dair rhan. Tyner y darn canol allan, a dyna fe.

* * * * *

"Bwlchteneig."—"Bwlch pen bys" y gelwir hwn yn Morganwg. Plyger y clust yn ei haner, a thorer blaen y plygiad i ffwrdd.

* * * * *

"Bwlch tri thoriad."—Mae hwn yn esbonio ei hun. Gwneir dau doriad, o dan, neu ar y clust, a thorer y darn rhwng y ddau i ffwrdd.

* * * * *

Feallai y bydd yn ddyddorol nodi "nodau" eraill. "Clustwenfforch."—Plyger blaen y clust ar ei hyd, a thorer ar oleddf tuag atoch, a gwneir fforch fel cynffon gwenol. *Swallow Tail* y gelwir y nod gan y Saeson. "Carrai bâl."—Gelwir y nod hwn yn "chwarter" mewn rhai manau. Hollter un ran o bedair o'r clust, ar ei hyd, a thorer y chwarter clust i ffwrdd.

* * * * *

"Goleddfad."—Gwneir hwn gyda dau doriad—o flaen y clust, ac oddi wrth y bôn—i gyfarfod a'u gilydd.

* * * * *

"Bwlch cliced."—Gwneir hwn mewn dwy ffordd. Trwy dori un hollt tuag i fyny, o dan neu ar y clust. A thori ar oleddf tuag at hwnw, oddiwrth flaen neu fôn y clust.

* * * * *

Gellir gwneud amrywiaeth diderfyn gyda'r "Nodau" hyn. Byddai yn ddyddorol ymhelaethu, ond credaf fod paragraff fel hyn yn ddigon hir i'ch 'Nodion.'—*Brynfab, Pontypridd.*

YN AMSER RHYFEL.

Tydi sy'n llywodraethu'r nef a'r llawr,
Clyw brudd ruddfanau'th egwan blant yn awr,
Dan anrhaith rhyfel a'i gynddaredd ffol,
Sy'n gwasgar had trueni ar ei ol.

Gwel yr olygfa! Holl drugarog Dduw,
Yr ieuainc hardd fel blodeu'n syrthio'n wyw,
A cheraint hoff anwyliaid lawer myrdd
Yn tawel orphwys ar y gwndwn gwyrdd

Clyw gri y clwyfedigion ar bob tu,
A chwyn y gweddwon a'r amddifaid lu;
Lle gynt addfedai'r ŷd dan wenau'r nef
Gelyniaeth dyn yn ddigllawn gwyd ei llef.

Nid gwael ymryson oedd dy nôd, O Dduw,
Pan ar Dy lun y creaist ddynol ryw;
Nid i ddinystrio, ond i fyw'n gytun,
Y rho'ist in' fod o'th gariad maith Dy hun.

Pa beth a wnawn, ond ceisio genyt Ti
Gyhoeddi hedd drwy gyrau'n daearni;
Dy eiddo Di y Deyrnas yn mhob tir,
A'th eiddo yw gwaredu'th blant o'u cur.

Na fydded mwy ar orseddfeinciau'r byd
Ond gweision gwar i Ti, o frawdol fryd;
Doed hedd yn glau yn goron ar bob gwlad,
A'th blant i gyd i'th arddel Di yn Dad.

E. CEREDIG JONES.

ETHOLDIGAETH. — Dwy farn wahanol. Ebe Dr. Ward Beecher: Yr etholedig yw yr hwn a ewyllysio, a'r anetholedig yw yr hwn nad yw yn ewyllysio. Ac ebe Dyn Du yn pregethu: Frodyr, fel hyn y mae. Y mae'r Arglwydd yn fotio dros y dyn, a'r diafol yn fotio yn ei erbyn. Yna daw'r dyn ei hunan, ac efe sydd yn tori cwlwm yr anhawsdra. Nid tebyg y cytunai Calfin ag un o'r ddau.

MOR sicr yw geiriau'r gwr doeth, ac mor fynych y clywn hwynt yn cael eu cadarnhau. Ebe fe, Golud yn ddiau a gymer adenydd ac a eheda ymaith.—Diarhebion 23: 5. Yn y *Christian Life* am Mehefin 22, darllenwn i'r diweddar Peter Robinson, y siopwr enwog, adael tri chant a haner o filoedd o bunau i'w fab pan y cyrhaeddai bump ar hugain oed. Yr wythnos flaenorol, ymddangosodd y gwr ieuanc o flaen y llys yn Marylebone, yn Llundain cyn cyrhaedd ei bump ar hugain oed, a gorfu iddo gyffesu ei fod wedi gwario'r oll, "ac yr wyf yn awr yn fethdalwr ac heb ddim—and I am now a bankrupt!" Cymered y darllenydd rybudd.

FE gofia'r darllenydd gyngor y gwr doeth—Hyfforddia'r plentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio, nid ymedy a hi. Y mae'r Parch. Boyd Carpenter, Canon Westminster, yn ei lyfr newydd (t. 72) yn adrodd 'stori ddoniol a glywodd gan Dr. Watson (Ian Maclaren). Yr oedd rhyw archddiacon mewn cyfarfod dirwestol, ar ol adrodd amryw 'storiau chwerthinus, yn teimlo ei fod wedi myned yn rhy bell—ac meddai, "Ond, i fod yn fwy difrifol, swm y cwbl a ddywedais yw—Hyfforddia blentyn i ochelyd y botel, a phan heneiddia nid ymedy a hi." Doniol meddwl am y plentyn wedi myned yn hen â'i afael yn dyn am y botel waharddedig.

Cymdeithas Addysgol Gweinidogion Undodaidd . . Cymreig. . .

RHODDION YCHWANEGOL.

	£	s.	c.
CAPELYBRYN.			
Mr. Ebenezer Jones, Bryngwineu (ychwanegol)	0	1	0
CAPELYCWM.			
Mrs. Turner, Blaenwaun	0	0	6
Misses Jones, Caerau	0	5	0
RHYDYGWIN.			
Collection	1	5	0
Mr. D. Saunders Davies	0	2	6
Mr. Jenkin Jenkins, Glanwern	0	2	6
Mr. D. Hughes, Rhydyfydr	0	2	6
CILIAU.			
Collection	0	11	3
Mr. Thomas Jonathan, Foelallt	0	5	0
Mr. Timothy Jonathan, eto	0	2	6
Mr. Evan Hughes, Dihewyd	0	2	6
Miss Evans, C.M., Parc	0	2	6
Mrs. Capt. Davies, Glynderwen	0	3	0
Mr. Lewis Evans, Tynant	0	2	6
Mr. Edward Jones, Cwmwenallt	0	2	0
Mrs. Jones, eto	0	2	0
Mr. Evan Evans, Maesygaer	0	2	6

An intensely human and vividly realistic Novel depicting Life, Thought, and Character in the "Land of Religion and Song."

TO BE PUBLISHED SHORTLY, PRICE 6S.

"DANIEL EVELYN, HERETIC."

A Story which contains less fiction than fact.

By CADVAN RHYS (Author 'The Welsh Jew,' 'Poetlets & Bardlings,' &c.

Orders received by J. D. Lewis, "Yr Ymofynydd" Office, Llandyssul.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing —— food for everybody. ——

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord Airedale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool
John Alexander Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
Arthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London.
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester.
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry.

Dr. BALANCE SHEET, 31st October, 1912. Cr.

LIABILITIES.

	£	s.	d.
Capital paid up	3,989,237	10	0
Reserve Fund	3,390,313	15	0
Current, Deposit and other Accounts (including Balance of Profit and Loss Account) ..	83,658,199	4	2
Acceptances on account of Customers ..	8,027,204	14	0

ASSETS.

	£	s.	d.	£	s.	d.
Cash and Bullion in hand and Cash at Bank of England ..	14,416,342	17	2			
Money at Call and at Short Notice	12,418,446	17	7			
				26,834,789	14	9
Investments				9,230,608	14	10
Bills of Exchange				7,517,682	16	8
				43,583,031	6	3
Advances on Current Accounts, Loans on Security, and other Accounts				45,416,389	1	5
Liabilities of Customers for Acceptances as per Contra				8,027,204	14	0
Bank Premises, at Head Office and Branches ..				2,038,330	1	6